

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 1 Rhif 7

Yn rhad ac am ddim

Hydref 2020

Llongddrylliadau

Mae yna rywbeth rhamantus iawn am y môr yndoes? Llongau yn hwylio o un wlad i'r llall, cariad ym mhob porth hefyd! Brensiach annwyl - sut oedd rywun yn ymdopi efo hynny? Roedd hynny cyn ffonau symudol a dw i'n siŵr roedd hynny yn fath o gysur. Ond yn eich meddwl mae'r rhamant achos roedd yn fywyd peryglus dros ben. Roedd yn cymryd dros saith deg diwrnod i gyrraedd Awstralia o Lerpwl ac yn ystod y daith roedd debygrwydd o lawer storm. Dim radio er mwyn gofyn am gymorth, dim 'search and rescue'. Roeddech chi ar eich pen eich hunain yn dibynnu ar drugaredd y tywydd.

Yn yr hen ddyddiau, yn bell cyn i chi a fi lanio ar y ddaear yma roedd llawer mwy o longau ar y môr, rhai o'r llongau yn cael eu hadeiladu ar draethau Bae Ceredigion, llawer o'r capteiniaid yn Gymry glân. Roedd llefydd fel Llangrannog efo mwy o gysylltiad ag Iwerddon na chefn gwlad Cymru. Roedd yn daith cymharol gyflym o Iwerddon i arfordir Cymru, ond roedd peryg hyd yn oed mewn taith fer. Yn y llun mae adfeilion y llong Helvetia. Mi oedd hi wedi dod o Sweden efo lwyth o bren ac yn aros o gwmpas Mwmbwls yn gobeithio am beilot. Yn anffodus doedd y peilot ddim yn gallu gadael cysgod Bae Abertawe a chafodd yr Helvetia ei chwythu i lawr y sianel a

chael ei hun yn sownd ar fanciau tywod yr Helwick. Pan wnaeth y llanw godi cafodd ei chwythu tuag at Ben Pyrod ble wnaeth y criw lwyddo i roi angor i lawr. Ond mi wnaeth y storm waethygu, torrodd yr angor a chafodd ei lusgo at y traeth. Roedd y criw wedi llwyddo i adael pan oedd hi ar angor felly na wnaeth neb colli ei

bywydau. Mae llawer o'r pren wedi cael ei ddefnyddio yn y tai o gwmpas. Roedd hynny dros gant ag ugain mlynedd yn ôl felly pren o safon ynte!

Mae llawer o longau wedi dod i drafferth ar arfordir Gŵyr a phan dach chi'n meddwl sut mae'r

llanw yn dod i mewn ac allan dwywaith pob diwrnod does dim syndod. Pan mae'r llanw yn dechrau dod i mewn mae Bae Caerfyrddin yn llenwi, wedyn mae'r holl ddŵr yna yn cael ei gwthio tuag at aber yr afon Hafren. Wrth i'r sianel fynd yn gul mae'r môr yn gorfod rhedeg yn gyflymach. Mae hyn i gyd yn digwydd dwywaith y diwrnod. Dychmygwch faint o wahaniaeth mae gwynt cryf yn gwneud!

Ar ochr pendraw'r bae roedd llongddrylliad arall ac roedd hon yn llong llawn drysor, yn ôl yr hanes. Does neb yn gwybod beth oedd ei henw go iawn ond mae'n cael ei adnabod fel 'The Dollar Ship'. Ym mhentref Llangennith mae bwthyn o'r enw 'Dollar Cottage' ond stori arall ydi hynny!



Syrthio mewn cariad â beicio

gan Jan Hill-Tout

Mae fy mherthynas â beicio wedi para dros 60 mlynedd. Pan ro'n i'n weddol ifanc, o gwmpas 4 oed, dw i'n cofio bod ar gefn beic fy Mam oherwydd roedd e'n ffordd o deithio i'r ysgol, a doedd e ddim yn anarferol pryd hynny. Fy ngof nesa yw pedlo lawr ein stryd ar fy meic tair olwyn ac yn bwrw gwraig ar y palmant achos doeddwn i ddim yn canolbwyntio. Roedd pawb yn grac iawn ac wylais i! Ymhellach ymlaen pan o'n i'n hyn, es i fas ar fy meic trwy'r cefn gwlad a dw i'n cofio cael fy nghyffro wrth feicio yn y Cotswolds ble ro'n ni'n byw ar y pryd. Roedd e'n syfrdanol. Yn nes ymlaen beiciais gyda fy mhlant, a dw i'n cofio trwsio pynjiars ar ochr y ffordd. Llauer o hwyl! Nawr dw i wedi ymddeol mae beicio yn dal yn rhan o fy mywyd a dw i'n llawn brwdfrydedd amdano. Dw i'n lwcus achos dw i'n gallu cymryd mantais o'r llwybrau beicio yn fy milltir sgwâr ac yn bellach i ffordd.

Ers mis Mawrth ac yn ystod y cyfnod dan glo roedd storm berffaith ar gyfer datblygu beicio. Yn gyntaf roedd y tywydd yn dwym ac yn sych, ac wrth gwrs oherwydd hynny roedd llauer o bobl yn gweithio neu ddysgu eu plant adre, roedden nhw'n chwilio am fodd i gadw'n heini. Yn bersonol nes i flino ar y strydoedd lleol yn eithaf cyflym, cymerais y cyfle i fynd i lefydd tipyn bach yn wahanol. Er enghraifft gallwn i gyrraedd Bae Caerdydd yn yr amser ar gael. Roedd e'n brofiad arbennig i fi ar y pryd i weld y môr. Ar ben hynny

roedd y ffyrdd i gyd yn wag a dw i'n cofio taith dangnefeddus trwy ganol y Ddinas ac ar hyd Ffordd y Gadeirlan. Doedd neb o gwmpas o gwbl. Anhygoel.

Gwelais i lawer o unigolion, grwpiau a theuluoedd yn beicio o gwmpas, nid yn unig MAMILs (Middle Aged Men In Lycra) ond hefyd pobl fel chi a fi. Roedd siopau beiciau yn taro'r haearn tra bo'n boeth a chymryd mantais o'r adfywiad. Yn ôl y Guardian roedd galw mawr ar feiciau ac roedd 60% mwy yn cael eu gwerthu nag arfer ym mis Ebrill. Roedden nhw'n amserau eithriadol ac yn sydyn roedd llauer o bobl wrth eu boddau â beicio.

Ond a fydd y cariad newydd yn parhau? Roedd bod dan glo yn drobwynt a oedd wedi anadlu bywyd yn ôl i feicio ond dw i'n poeni am y misoedd i ddod. A fydd y beicwyr newydd yn barod i fynd allan yn y glaw a'r gwynt? Mae gen i lawer o gydymdeimlad at bobl sydd ddim eisiau bod yn wlyb ac yn oer. Os dach chi'n mynd i'r gwaith byddech chi'n cyrraedd mewn llanast. Os dach chi allan gyda'ch plant bydden nhw'n cwyno trwy'r amser siwr o fod. Wedyn y ceir, mae'r ffyrdd yn brysur ac yn gallu codi ofn arnoch. Mae rhan fwyaf o'r gyrrwyr yn gwrtais ond mae'n amlwg bod rhai ohonyn nhw'n ein casáu. Does neb eisiau cael damwain ond yn anffodus maen nhw'n digwydd ac weithiau maen nhw'n gallu newid eich bywyd.

Un peth arall sydd yn gallu rhoi terfyn ar feicio yw ddiogelwch y beic. Dros y deng mlynedd diwethaf mae pedwar o fy meiciau wedi cael eu



dwyn. O achos hyn dw i'n mynd â dau glo clap gyda fi pob tro dw i'n mynd allan. Maen nhw'n drwm wrth gwrs ond dw i'n teimlo'n hapus yn fy sicrwydd bod y beic yn ddiogel.

Yn gyffredinol a fydd y cariad newydd tuag at feicio yn dod i ben? Bydd, dw i'n meddwl. Mae'r tywydd yn wlypach ac yn oerach, mae'r traffig wedi cynyddu ac er gwaethaf lôn beicio newydd yng Nghaerdydd mae'n rhaid bod yn ddewr i feicio ar y ffyrdd. Es i ar hyd Llwybr Taf i Gaerffili'r wythnos diwethaf ac roedd hi'n dawel iawn, mor wahanol i'r cyfnod dan glo. Mae'n amlwg roedd beicio yn boblogaidd iawn dros yr haf ond nawr dw i'n becho bod yr arferiad newydd yr un peth a'r hen arferiad, ac mae hynny'n drueni.

Beth amdanaf fi? Wel dw i'n bwriadu mynd ymlaen gyda beicio achos dw i'n caru fe. Dw i'n hoffi bod yn yr awyr iach, cael cyfle i feddwl a hefyd weithiau mae'n gallu bod yn wefreiddiol. Ac wrth gwrs dyw cariad ddim wastad yn rhesymegol.

Lleidr Digywilydd

Diwrnod braf a finnau'n eistedd ar y sedd o dan ffenest y gegin. Dim byd i'w wneud ond gwerthfawrogi'r tawelwch a'r gwres. Yn sydyn welais wiwer yn rhedeg ar ben y ffens ac yn amlwg yn anelu at y gornel. Neidiodd wedyn a glanio ar ben y fframwaith sydd yn cynnal y coed afalau. Wedyn dyma fo'n ymestyn ei bawen am afal ar fy nghoeden Ynys Enlli. Bychan iawn yw'r afalau ar y goeden honno, er hynny, fi sydd pia nhw!

Doeddwn i ddim cweit yn credu'r peth oeddwn i wedi gweld felly codais a symud yn araf i'r chwith er mwyn cael gwell olwg ar y lleidr digywilydd. Ond efallai roedd ganddo gywilydd wedi'r cwbl achos roedd wedi troi ei gefn arnaf fi i guddio'r ffaith roedd yn bwyta fy ffrwyth gwerthfawr. Wedyn gwnaeth droi ei ben i un ochr er mwyn i

mi weld y fflach o wyn cyn i weddillion yr afal ddiflannu lawr ei lwnc.

“Wel!” meddaf fi yn sefyll efo fy nwylo ar fy lwynau “roedd ganddo fo wyneb yndoedd!” Gresyn nad oedd siawns i dynnu llun ond roedd popeth drosto mewn ychydig o funudau. Nad oedd yr afal yna yn ddigon mawr i boeni amdano beth bynnag a gwell o lawer i'r hen wiwer ei gael. Ar ôl llyfu ei wefusau neidiodd y wiwer yn ôl i ben y ffens, cerddodd at y canol i ddiflannu'n sydyn. Roedd brigau'r goeden ochr arall i'r ffens yn chwifio'n ffyrnig.

Unwaith eto roedd yn anodd credu beth oedd wedi digwydd ac er mwyn i chi, annwyl darllenwyr, rhannu'r anghrediniaeth bydd well i mi egluro rhai ffeithiau. Mae lôn fach yn rhedeg tu ôl i'r ffens ac mae wal saith droedfedd fel terfyn i fy ngardd, ar ben y wal mae'r ffens. Mae coeden ffawydd ochr arall i'r lôn a'r brigau'n ymestyn hyd at ei ganol. Roedd y wiwer wedi neidio chwe throedfedd, glanio ar y brigau lleiaf, cydio'n dyn a rhedeg i fyny'r gangen i ddianc i ddyfnderoedd y goeden. Meddyliwch am funud, mae o'n neidio tua chwe throedfedd ac wrth lanio, mae'r brigyn yn disgyn yn sydyn. Yn amlwg mae'r wiwer yn hoffi naid bynji.

A dim ond rhan fach o ryfeddodau byd natur oedd hyn, meddyliwch am adar bychan yn mudo o'r wlad yma i wledydd bydden ni'n cyrraedd dim ond trwy eistedd ar awyren. Eogiaid hefyd yn nofio miloedd o filltiroedd ac yn cofio'r ffordd yn ôl i'r union un afon.

Anhygoel, hollol anhygoel!

Byswn i wedi bod wrth fy modd taswn i wedi cael llun i ddangos i chi ond wnaeth pethau ddigwydd mor gyflym. Mae'n rhywbeth bydda i byth yn anghofio!

Fy Nhad

gan Martin Jones

Cwpl o wythnosau'n ôl, wrth i fi fynd trwy hen bapurau, des i o hyd i ychydig o hen luniau fy nhad pan oedd e'n ddyn ifanc. Morwr oedd e, ac roeddwn i'n meddwl y byddai e'n ddiddorol ysgrifennu darn bach am ei brofiadau yn ystod ei flynyddoedd cynnar ar y môr. Ond, i ddechrau, gair o esboniad. Hyd yn oed i fi fy hun, mae hi bron yn anghredadwy i ddweud y ganwyd fy nhad ym 1899, felly, pan aeth e i'r môr yn un ar bymtheg mlwydd oed, roedd y wlad ynghanol y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ym 1916, gadawodd fy nhad Abertawe i deithio i Sunderland i ymuno â'i long gyntaf. Ond ni aeth pethau'n dda, achos nid oedd y llong yn barod, ac roedd rhaid iddo fe aros mewn tŷ gwely a brecwast, lle rhannodd e wely dwbl, gwely sengl wedi'i dorri, a chadair gyda dau brentis arall ac un gwas gali! O'r diwedd, roedd y llong yn barod, ond yn y dyddiau hynny roedd perchenogion yn rhedeg eu llongau ar y nesaf peth i ddim ac roedden nhw heb ddarparu dim byd i'r morwyr ifanc. Felly roedd rhaid i fy nhad brynu popeth oedd ei angen arno fe, gan gynnwys hyd yn oed ei gyllyll a ffyrac a'i 'frecwast asyn' (sef matres wedi'i wneud o wellt) am ddau swllt a chwech!

Doedd amodau ddim yn well ar y llong. Er enghraifft, doedd dim ystafell ymolchi - dim ond bwced; ac roedd rhaid i'r morwyr ifanc gario eu bwyd traean hyd y llong yn ôl i'w caban lle roedden nhw wedi cael y saer llong i wneud bwrdd iddyn nhw. Fyddwch chi ddim yn

synnu clywed bod y bwyd yn ofnadwy! Fel canlyniad, o bryd i'w gilydd, byddai'r morwyr ifanc yn dwyn blwch o'r stôr mewn gobaith o ddod o hyd i bethau fel tuniau o domatos neu laeth ac yn y blaen. A gan daw fy nhad oedd y lleiaf, fel arfer fe oedd yn cael ei anfon i mewn i'r stôr. Ond nid bob tro wnaeth e lwyddo i ddewis rhywbeth o werth i'w ddwyn - ar un achlysur, digwyddodd taw "Keatings Powder" (math o wenwyn i ladd trychfilod) oedd cynnwys y bocs . Felly, taflu'r bocs i'r môr oedd yr unig beth i'w wneud.

O Sunderland, croesodd y llong Môr yr Iwerydd, a gan fod hi'n ganol gaeaf roedd y tywydd yn rhewllyd. Roedd pont lywio'r llong yn hollol agored ar wahân i ryw gynfasau - mae'n ymddangos taw'r farn bryd hynny oedd: gall gormod o gysur amharu ar effeithiolrwydd swyddog yr wylfa! Roedd hi mor oer bod rhaid i'r swyddog yr wylfa sefyll mewn baril o wellt er mwyn rhwystro ei draed rhag rhewi.

Treuliodd fy nhad gweddill y Rhyfel Byd Cyntaf yn croesi Môr yr Iwerydd. Ac, wrth gwrs, ym mis Chwefror, 1917 cyflwynodd Yr Almaen bolisi o ymosodiadau digyfyngiad gan longau tanfor ar longau masnachol, a dros y tri mis nesaf cafodd

nifer o longau eu suddo. Ond ym mis Mai, dechreuodd longau masnachol hwylio mewn confois wedi'u gwarchod gan longau'r Llynges Frenhinol, roedd hyn yn llwyddiannus iawn i leihau'r nifer o longau wedi'u colli. Yn ogystal â hyn, arfogwyd longau



masnachol, fel gallwch chi weld yn y llun.

Wrth lwc, daeth fy nhad trwy'r rhyfel yn ddianaf. Ond yn gynnar ym 1918, ymwelodd e â Halifax, Nova Scotia, lle gwelodd sgil effeithiau erchyll ffrwydrad wedi'i achosi gan wrthdrawiad rhwng dwy long. Lladdwyd dwy fil o bobl, ac anafwyd naw fil o bobl eraill, a dinistriwyd yr holl adeiladau o fewn hanner milltir.

Ar ôl ei brofiadau ar Fôr yr Iwerydd, hwyliodd fy nhad i'r Dwyrain Canol. Bryd hynny, doedd dim rhewgelloedd ar longau - felly aeth llong fy nhad â chwech o ddefaid, dwy fuwch, dau ddwsin o ieir, a dau ddwsin o hwyaid! Ar y daith hon, "gwas fferm" oedd fy nhad - gwaith a ddaeth â bonws: y cyfle i ddwyn wyau!

Ar ei ddychweliad adre o'r Dwyrain Canol, daeth ei brentisiaeth – a rhan gyntaf o'i yrfa - i ben. Amser dechrau astudio tuag at ddod yn "Master Mariner" oedd hi nawr.

Geiriau a Dywediadau

gan Dic Shonnelly

Geiriau sydd yn gwneud iaith ond peidiwch â meddwl bod pob ystyr i'r gair yn Gymraeg yn cyfateb i bob ystyr y gair yn Saesneg. Cymhleth ynte! Mi fydd pethau'n fwy clir unwaith i mi roi esiampl i chi.

Gwario – to spend money.

Treulio – to spend time.

Mi wnawn ni ddechrau efo'r ferf Saesneg 'to spend' - yn Saesneg allech chi 'spend money' a hefyd allech chi 'spend time'. Ond nid yn Gymraeg, felly mi ydan ni'n gwario arian ond ddylen ni ddim gwario amser. Mi ydan ni'n treulio amser. Os ydych chi'n ofalus efo'ch arian mae'n ddigon bosib y byddech chi'n 'treulio amser i wario arian'. Felly cofiwch y gwahaniaeth - gwario arian ond treulio amser. Byddech chi'n clywed llawer o bobl yn dweud gwario amser ond

gwnewch yn siŵr eich bod chi yn defnyddio'r ferf iawn.

Troi ymlaen – switch on,

Troi i ffwrdd – switch off.

Mae hi'n nosi ac mae eich teulu a chithau yn eistedd yn y lolfa ac mae rhywun yn gofyn i chi i droi'r golau 'on'. Efallai bod y golau yn dal 'on' yn y cyntedd a gan mai chi yw'r agosaf at y drws bydd rhywun yn gofyn i chi droi'r golau 'off'. Mae'r iaith Gymraeg yn gallu sefyll ar ei thraed ei hun a does dim rhaid i ni ddefnyddio geiriau Saesneg, yn enwedig yn eich iaith pob dydd. Felly cofiwch fod ni'n troi'r golau ymlaen neu droi'r golau i ffwrdd, troi'r teledu ymlaen a throi'r teledu i ffwrdd.

Mae llawer i gofio, ond unwaith dach chi'n dod i arfer bydd pethau yn haws i chi. Fel oedd Nain Dolgoch yn dweud – yn araf deg mae dal iâr!

Camgymeriad Ffodus

gan Brandi Snapp

Dw i'n pobi fy mara fy hun, wedi gwneud hynny am flynyddoedd. Bara cyflawn yw'r ffeffryn ond nid yw fy archfarchnad arferol yn gwerthu blawd cyflawn bellach. Felly pob hyn a hyn dw i'n mynd i lawr i Sainsburys. Nid ydw i'n mynd i ddweud bod 'archfarchnadoedd eraill ar gael' achos dach chi'n gwybod hynny'n iawn). Ond o achos yr argyfwng a phawb yn y byd eisiau efelychu fi mae prinder blawd o unrhyw fath. Does dim iws siopa yn hwyr yn y prynhawn achos, erbyn hynny, bydd popeth wedi diflannu. Os yw'r cwpwrdd yn mynd yn isel dw i'n mynd cyn deg y bore.

Mae llawer silff ar gyfer blawd ac mae'r blawd cyflawn ar y silffoedd isaf fel arfer. Mae'n creu dipyn o embaras i orwedd ar y llawr a phobl yn cael yr argraff mod i dipyn bach yn od ond dyna fo ... pan bod rhaid a.y.y.b. Wythnos diwethaf des i nôl efo dau becyn o flawd cyflawn ond wrth gyrraedd adref sylweddolais nad blawd ar gyfer

bara oedden nhw. Blawd cyflawn plaen oedden nhw ac mae'n rhaid cael blawd cryf ar gyfer bara. Roedd rhaid i mi feddwl beth oeddwn i'n gallu gwneud efo'r blawd yma a meddyliais am wneud bara soda, y fath dach chi'n cael efo'ch brecwast yn Iwerddon ac sydd yn cadw chi'n llawn egni trwy'r dydd.



Ces i hyd o rysâit ond y tro cyntaf ni wnaeth godi'n iawn felly roedd rhaid gwneud newidiadau ac yn y diwedd ces i dorth ddefnyddiol dros ben. Dw i'n falch iawn mod i wedi gwneud camgymeriad!

Os dach chi eisiau trio gwneud un eich hun dyma'r rysâit:

Bara Soda

260gm blawd plaen gwyn
260gm blawd plaen cyflawn
100gm blawd ceirch
1 llwy de soda bicarbonad
1 llwy de halen
25gm menyn Cymreig wedi torri'n fân
300ml llefrith (llaeth)
100ml iogwrt

Cynheswch y popty i 200C/nwy 6/ ffan 180C.

Rhowch y blawd, soda bicarbonad a'r halen yn eich cymysgwr a rhannu'r menyn dros yr wyneb. Wrth ddefnyddio'r llafn toes trowch y cynhwysion tan i'r menyn a'r blawd cymysgu'n iawn.

Cymysgwch y llefrith a'r iogwrt yn dda ac yn raddol ychwanegwch at y cymysgedd. Mae'n

rhaid cael cymysgedd sydd yn cadw at ei gilydd heb fod yn rhy wlyb. ychwanegwch ychydig mwy o llefrith neu blawd cyflawn i sicrhau hyn. Pan mae'n edrych yn iawn rhowch dipyn o flawd ar eich dwylo a gwnewch belen o'r toes yn y bowlen.

Rhowch y belen ar silff pobi wedi ei wasgaru efo blawd, gwasgwch y belen i tua modfedd o drwch ac efo cylllell torrwrch groes eithaf dwfn ar y pen.

Rhowch yn y popty a'i bobi am 30 - 35 munud.

Lapiwch â lliain sychu (glân) a rhowch ar resel i oeri.

Rhannwch i bedwar, allech chi gadw'r darnau yn y rhewgell am ychydig o ddyddiau os nad oes digon o bobl wedi llwgu o'ch cwmpas. Torrwch mewn darnau trwchus a mwynhewch efo menyn, jam a phanad.

Y Wiwer Eto

Roeddwn i'n eistedd ar fy hoff sedd o dan ffenest y gegin y bore 'ma yn gwranddo ar yr adar ond roedd fy llygaid yn canolbwyntio ar y wiwer.

Roedd hi'n brysur dros ben yn y coed derw ochr arall i'r lôn. Casglu mes siŵr o fod. Ond os felly sut mae hi'n llwyddo i gario'r mes? Does dim lle i fwy nag un yn ei cheg nag oes? Yn sicr nid ydy hi'n gallu rhoi nhw o dan ei chesail neu na fydd hi'n gallu gwneud yr holl gampau acrobatig.

Does ganddi ddim poced fel sydd gan y cangarw chwaith. Efallai ei bod hi ddim ond yn cael ffid, ond os felly pam nad ydy hi'n aros am sbel bob hyn a hyn i fwyta. A oedd ei mam wedi ei rhybuddio bydd rhedeg o gwmpas tra bod hi'n bwyta mes yn achosi poen yn y bol?

Llawer o gwestiynau ond oes gan rywun ateb?

Gadewch i mi wybod.

Geirfa

Want to contribute ? But ...

It takes a bit of courage to write in a language which you have only recently learned, particularly Welsh. There are mutations to think about and the question of whether something is masculine or feminine. Nobody wants to make a mistake and feel foolish, not that you should feel foolish. You would be admired for trying. If only there was a way of checking everything you have written ... well, good news – there is.

Canolfan Bedwyr, part of Bangor University has developed software called Cysill and it will check your spelling, mutations and whether you have got the gender right. You can install it so it works through Microsoft Word but at the moment I can't seem to get the details up on screen. However there is also an online version where you cut and paste your text into the box (you will have to do it bit by bit). You just need to press the button and watch it work.

Also did you know that you can install Welsh language software so that mis-spellings are highlighted as you type. You can get that, and instructions about installation from the Microsoft website.

So there you are, do all that and try out your new software by, say, writing a story and when you are happy with it send it to me. I will then run my eye over it and you will have your first story published – and won't you feel proud!

Cysill Ar Lein – just put “Cysill ar lein” in your search engine and then just use cut and paste.

Please don't try to learn this vocabulary, just refer to it for the stories. Read as much as you can and your brain will slot everything into the right compartments. Trust me!

Llongddrylliadau

Rhamantus – romantic
Hwyllo – to sail
Tebygrwydd – likelihood
Cymorth – assistance
Trugaredd – mercy
Cymharol gyflym – relatively fast
Yn sownd – stuck fast
Banciau tywod – sand banks
Pen Pyrod – Worms Head
Llusgo – to drag
Pren o safon- wood of quality
Dod i drafferth – to come to grief
Does dim syndod – not surprising
Gwthio – to push
Mynd yn gul – to get narrower
Llawn drysor – full of treasure

Mewn Cariad â Beicio

Perthynas – relationship
Para (pahau) – to last
Gweddol ifanc – quite Young
Anarferol – unusual
Palmant – pavement
Canolbwyntio – to concentrate
Gwylais i – I cried
Cyffro – excitement
Syfrdanol – stunning
Brwdfrydedd – enthusiasm
Milltir sgwâr – local area
Cadw'n heini – to keep fit
Tangnefeddus – peaceful
Cadeirlan – Cathedral
Adfywiad – revival
Eithriadol – exceptional
Wrth eu bodd – delighted with
Cydymdeimlad – sympathy
Codi ofn – to frighten
Clo clap – padlock
Yn fy sicrwydd – in my certainty
Er gwaethaf – in spite of
Gwefreiddiol – thrilling
Rhesymegol - logical

Lleidr Digywilydd

Anelu – to aim for
 Cynnal – to support
 Ymestyn ei bawen – to reach out its paw
 Gwell olwg – a better view
 Lleidr digywilydd – shameless thief
 Cywilydd – shame
 Gwerthfawr - precious
 Gweddillion – remains
 Llwnc – throat
 Dwylo ar fy lwynau – arms akimbo
 Roedd ganddo fo wyneb – he had a cheek
 Gresyn – pity
 Brigyn, brigau – twig, twigs
 Anghrediniaeth disbelief
 Egluro – to explain
 Mudo – to migrate
 Eog – salmon

Camgymeriad Ffodus

Pobi – to bake
 Bara cyflawn – wholemeal bread
 Blawd cyflawn wholemeal flour
 Argyfwng – emergency
 Efelychu – to imitate
 Silff – shelf
 Gorwedd – to lie down
 Cael yr argraff – to have the impression
 a.y.y.b. (ac yn y blaen) – and so on
 Egni – energy
 Ces i hyd – I got hold of
 Rysait – recipe

Bara Soda

Cymysgwr – mixer
 Llafn toes – dough blade
 Cynhwysion – contents
 Yn raddol – gradually
 Ychwanegwch – add
 Cymysgedd – mixture
 Cadw at ei gilydd – to keep together
 Silff pobi – baking tray
 Wedi ei wasgaru – spread with
 Trwch – thickness
 Lapiwch – fold
 Lliain sychu - tea towel

Rhesel – cooling tray
 Rhewgell – freezer
 Pobl wedi lwgu – hungry people
 Darnau trwchus – thick slices

Fy Nhad

Profiadau – experiences
 Anghredadwy – incredible
 Prentis – apprentice
 Gwas gali – galley hand
 Perchenogion – the owners
 Nesaf peth i ddim – next to nothing
 Darparu – to supply
 Gwellt – straw
 Dau swllt a chwech – two and six
 or half a crown or 12 1/2 p
 amodau – conditions
 Er enghraifft – for example
 Traean hyd – a third of the way
 Saer llong – ship’s carpenter
 Fel canlyniad – as a result
 O bryd i’w gilydd – now and then
 Blwch – a box
 Ar un achlysur – on one occasion
 Gwenwyn – poison
 Trychfilod – insects
 Pont llywio – steering house
 Hollol agored – completely open
 Cynfasau – sheets
 Barn – opinion
 Amharu – to affect
 Effeithiolrwydd – effectiveness
 Baril o wellt – a barrel of straw
 Cyflwyno – to introduce
 Ymosodiadau – attacks
 Digyfyngiad – unconfined
 Llongau tanfor – submarines
 Suddo – to sink
 Llynges Frenhinol – Royal Navy
 Arfogwyd – to arm
 Dianaf – uninjured
 Ymweld â – to visit
 Sgil effeithiau – side effects
 Erchyll – frightful
 Ffrwydrad – explosion
 Gwrthdrawiad – collision
 Gwas fferm – farm hand